**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg,
Llywodraeth Cymru

27 Medi 2024

Llywodraeth Cymru a Chaffael Cerbydau Trydan

Annwyl Mark,

Ysgrifennaf ynglŷn â llythyr eich rhagflaenydd, dyddiedig 19 Gorffennaf 2024, a oedd yn ymateb i ymholiadau'r Pwyllgor am gaffaeliad Llywodraeth Cymru o gerbydau trydan, a werthfawrogwyd. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor ragor o gwestiynau yr hoffem pe baech yn rhoi sylw iddynt.

Nodwn fod Nodyn Polisi Caffael Cymru 07/21 Llywodraeth Cymru yn dweud na chaiff Llywodraeth Cymru ofyn am gyfrifon archwiliedig rhagor na dwy flynedd fel rhan o'i harfer diwydrwydd dyladwy. Byddem yn gwerthfawrogi cadarnhad pam fod hyn yn wir, a darganfod a yw hyn yn seiliedig ar ganllawiau neu arfer arall.

Hoffem hefyd wybod rhagor am brosesau Llywodraeth Cymru fel rhan o'i harfer diwydrwydd dyladwy o ran caffael, i ddarganfod beth yw hanes ariannol blaenorol cyfarwyddwyr unigol sy'n gysylltiedig â chwmnïau bidio. A oes proses ar waith ar gyfer gwneud hynny ac a gaiff y broses ei gweithredu ym mhob achos, yn seiliedig ar feini prawf penodol, neu na chaiff, dim o gwbl?

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r llythyr hwn erbyn 18 Hydref 2024.

Cofion gorau,

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus